

Pa wybodaeth sydd ei hangen?

1. Eich enw a'ch cyfeiriad cyfredol llawn
2. Unrhyw enwau eraill yr ydych wedi eu defnyddio, ynghyd â'r dyddiadau pan wnaethoch ddechrau a gorffen defnyddio'r rhain
3. Gwybodaeth lawn am bob cyfeiriad a fu gennych yn y 5 mlynedd diwethaf, gan gynnwys cod post DU pob un, lle bo'n berthnasol
4. Manylion eich pasbort, os oes gennych un
5. Manylion eich trwydded yrru DU, os oes gennych un
6. Eich Rhif Yswiriant Gwladol DU, os oes gennych un

Sawl dogfen sydd eu hangen?

Ar gyfer y broses o wneud cais, mae'n rhaid i chi ddangos nifer o ddogfennau gwreiddiol i gefnogi'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen gais ar-lein. Mae'n rhaid i bob dogfen fod yn eich **enw presennol** (ac eithrio Tystysgrif Geni DU).

Mae'n rhaid i o leiaf un ddogfen ddangos eich **cyfeiriad presennol** ac mae'n rhaid i un ddangos eich **dyddiad geni**.

Mae'r dogfennau sy'n dderbyniol wedi eu rhannu'n 3 grŵp, fel sydd i'w weld isod. Os oes gennych Basbort dilys a/neu drwydded yrru cerdyn-llun DU, mae'n rhaid i chi ddangos y rhain, ynghyd ag 1 neu 2 ddogfen ychwanegol o unrhyw grŵp. Felly bydd gennych **o leiaf 3 dogfen i gyd** ar gyfer Cais Llwybr 1.

Os nad oes gennych ddogfen ddilys sydd yn Basbort, Trwydded Yrru cerdyn-llun DU/UE, Tystysgrif Geni DU wreiddiol, Tystysgrif Mabwysiadu neu Drwydded Preswlydd Fiomatrig **a'ch bod** yn Ddinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd neu DU, yna gallwch fynd ati i wneud cais Llwybr 2. Ar gyfer hyn bydd angen un ddogfen o Grŵp 2a A HEFYD dwy ddogfen arall o Grŵp 2a neu 2b **a hefyd** rhaid i chi roi caniatâd i DDC wneud Gwiriad Dilysu Hunaniaeth gydag Experian Cyf.

Os bydd dinesydd DU neu ddinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd yn methu darparu'r dogfennau angenrheidiol, neu os bydd dinesydd gwlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn methu darparu dogfen Grŵp 1, bydd angen iddynt wneud cais gan ddefnyddio ffurflen gais bapur y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a mynd i swyddfa heddlu leol i gael cymryd eu holion bysedd.

Sut y Trefnir y Dogfennau?

Dogfennau Grŵp 1

Unrhyw basbort dilys a chyfredol
Trwydded Yrru Gyfredol ffotogerdyn DU/UE
Tystysgrif Geni DU (a gyhoeddwyd o fewn 12 mis i'r dyddiad geni)
Tystysgrif Mabwysiadu DU

Dogfennau Grŵp 2a

Trwydded Yrru Gyfredol ffotogerdyn o'r tu allan i'r UE
Tystysgrif Priodas neu Bartneriaeth Sifil DU
Trwydded Yrru DU/UE ar bapur
Tystysgrif Geni DU (a gyhoeddwyd fwy na 12 mis wedi'r dyddiad geni)
Cerdyn Adnabod Lluoedd Arfog EM
Trwydded Gynnu DU

Dogfennau Grŵp 2b

Datganiad morgais DU/UE*

Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu**

Llythyr yn agor cyfrif banc DU**

Datganiad cerdyn credyd DU/UE**

Datganiad ariannol DU (ee pensiwn)*

P45* neu P60*

Datganiad treth cyngor*

Hawlen waith ddilys neu visa DU

Llythyr Noddi dilys gan Gyflogwr

Bil cyfleustod**

Datganiad budd-dâl**

Gohebiaeth Llywodraeth (ee CThEM) **

Cerdyn Adnabod Cenedlaethol dilys UE

Cerdyn 'Pass' dilys

Llythyr gan Brifathro/Brifathrawes (y rhai 16-19 oed yn unig)

* a gyhoeddwyd o fewn y 12 mis diwethaf

** a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf